

# Cyngor Sir Caerfyrddin

## Cynllun Deiseb

Helpu i gynyddu cyfranogiad y cyhoedd mewn Llywodraeth  
Leol

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn croesawu deisebau ac yn cydnabod bod deisebau yn un o nifer o ffyrdd y gall pobl roi gwybod inni am eu pryderon a chymryd rhan yn y broses ddemocrataidd.

Y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin.  
01267 224028 / [GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk](mailto:GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk)

---

## *Cyflwyniad*

---

Rydym yn croesawu deisebau ac yn cydnabod eu bod yn un o nifer o ffyrdd y gallwch chi roi gwybod inni am eich pryderon a chymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Mae'r canllawiau hyn yn crynhoi ein cynllun deisebau ac yn berthnasol i bob deiseb a gyflwynir sy'n rhan o'r cynllun.

Nid cyflwyno deiseb yw'r unig ffordd i ddatrys mater neu i fynegi eich barn. Gallech hefyd:

- gysylltu â'r gwasanaeth neu'r swyddog perthnasol yn uniongyrchol
- cysylltu â'ch cynghorydd ward lleol
- cysylltu â'r Aelod Cabinet perthnasol
- gofyn i bwyllgor craffu ymchwilio i'r mater
- gwneud cwyn i ni

---

## *Canllawiau a sut i gyflwyno deiseb*

---

Gall unrhyw un sy'n byw neu'n gweithio yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys y rhai dan 18 oed, drefnu neu lofnodi deiseb.

Mae dau fath o ddeiseb:

- Bydd deisebau a lofnodir gan lai na 50 o etholwyr cofrestredig mewn perthynas â chopïau papur neu lai na 300 o etholwyr mewn perthynas ag e-ddeisebau yn cael eu cyfeirio'n awtomatig at yr adran sy'n gyfrifol am y maes gwasanaeth, a fydd yn ymateb yn uniongyrchol i'r deisebydd.
- Mae'n rhaid i ddeisebau a gyflwynir i gyfarfod y Cyngor (o dan Reol 10B o Weithdrefn y Cyngor) gynnwys 50 llofnod etholwr cofrestredig ar gyfer copïau papur a 300 o lofnodion etholwr cofrestredig ar gyfer e-ddeisebau.
- Mae'n rhaid i bob deiseb nodi enw, cyfeiriad a chod post trefnydd y ddeiseb. Yn yr amgylchiadau hyn:
  - a) Mae'n rhaid i drefnydd y ddeiseb un ai bod yn etholwr llywodraeth lleol o'r sir neu'n Gynghorydd ar Gyngor Sir Caerfyrddin. Os nad oes manylion cyswllt ar y ddeiseb, gan gynnwys cyfeiriad ar gyfer trefnydd y ddeiseb, byddwn yn cysylltu â'r llofnodwr cyntaf ar y ddeiseb i gytuno pwy ddylai weithredu fel trefnydd y ddeiseb. Ni fydd manylion cyswllt trefnydd y ddeiseb yn cael eu nodi ar wefan y Cyngor.

Y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin.

01267 224028 / [GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk](mailto:GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk)

- b) Mae'n rhaid i ddeisebau papur ar gyfer cyfarfod o'r Cyngor gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig i'r Prif Weithredwr erbyn 10:00am 7 diwrnod gwaith clir fan bellaf (nid yw diwrnodau clir yn cynnwys y diwrnod y derbynnir y ddeiseb na diwrnod y cyfarfod) cyn diwrnod y cyfarfod y bwriedir ei chyflwyno ynddo.
- c) Ar gyfer e-ddeisebau, pan fydd 300 o lofnodion etholwyr cofrestredig wedi dod i law, bydd y ddeiseb hon yn cael ei chynnwys yn awtomatig ar agenda cyfarfod nesaf y Cyngor os gofynnir am drafodaeth yn y Cyngor pan grëwyd y ddeiseb.

**Os ydych yn cyflwyno deiseb, mae'n rhaid iddi gynnwys y canlynol: -**

- a) teitl/pwnc y ddeiseb
- b) datganiad byr, clir yn amlinellu hanfod y ddeiseb a'r camau yr ydych yn gofyn i'r Cyngor eu cymryd
- c) enw, cyfeiriad (gan gynnwys côd post) e-bost a rhif ffôn trefnydd y ddeiseb
- d) enwau a chyfeiriadau (gan gynnwys côd post) y sawl sydd wedi llofnodi'r ddeiseb
- e) yn ymwneud â materion y mae gan y Cyngor bwerau neu ddyletswyddau yn eu cylch neu sy'n effeithio ar ardal yr awdurdod, neu ran o'r ardal honno, neu ar drigolion yr ardal honno, neu rai o'r trigolion hynny.

Gellir cyflwyno deisebau **papur** i'r Prif Weithredwr drwy Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, Adran y Prif Weithredwr, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP.

Gellir cyflwyno **e-ddeisebau** drwy wefan e-ddeisebau'r Cyngor a rhaid iddynt gynnwys yn glir ddyddiad dechrau a chau'r ddeiseb, ac a oes deiseb papur yn casglu llofnodion yn unol â'r e-ddeiseb. Mae rhagor o wybodaeth ynglŷn â sut i gwblhau e-ddeiseb ar gael ar ein tudalen [e-ddeiseb](#). Ni chaiff deisebau eu derbyn o systemau deisebau ar-lein eraill. Bydd e-ddeisebau ar-lein ar gael ar wefan yr Awdurdod am ddau fis.

Y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin.  
01267 224028 / [GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk](mailto:GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk)

---

## ***Eithriadau i'r Cynllun Deisebau***

---

Bydd y rhan fwyaf o ddeisebau sy'n dod i'n llaw yn cael eu derbyn, ond mewn rhai amgylchiadau, ni fyddwn yn gallu delio â'ch deiseb o dan y cynllun hwn.

- Ymhlith y deisebau nad ydynt yn rhan o'r cynllun hwn y mae'r canlynol:
  - Unrhyw fater nad yw'r Cyngor yn uniongyrchol gyfrifol amdano neu nad oes ganddo ddylanwad drosto. Byddwn yn dychwelyd y ddeiseb atoch ac yn eich cyfeirio at y sefydliad cywir, pan fo'n bosibl.
  - Unrhyw fater sy'n ymwneud â phenderfyniad cynllunio - Ymdrinnir â'r rhain gan ddefnyddio gweithdrefnau cynllunio presennol. I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â gwneud sylwadau ynghylch penderfyniadau cynllunio, anfonwch e-bost at y tîm cynllunio [ymgyngoriadaucynllunio@sirgar.gov.uk](mailto:ymgyngoriadaucynllunio@sirgar.gov.uk)
  - Unrhyw fater sy'n ymwneud â chais am drwydded - Ymdrinnir â'r rhain gan ddefnyddio gweithdrefnau presennol. I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â gwneud sylwadau, anfonwch e-bost at y tîm trwyddedu [schlicensing@sirgar.gov.uk](mailto:schlicensing@sirgar.gov.uk)
  - Deiseb statudol (er enghraifft deiseb ar gyfer maer a etholir yn uniongyrchol).
  - Unrhyw fater lle mae hawl apelio eisoes neu broses gwyno ar wahân. Ymdrinnir â'r rhain gan ddefnyddio gweithdrefnau presennol.
  - Unrhyw faterion penodol y mae'r Cyngor yn cynnal ymgynghoriad ffurfiol arnynt. Ymdrinnir â'r rhain o dan broses wahanol.
  - Deiseb lle rydym wedi derbyn deiseb arall ar yr un mater o fewn y 12 mis diwethaf. O dan yr amgylchiadau hyn, byddwn yn ysgrifennu at drefnydd y ddeiseb ac yn cynnwys copi o'r ymateb i'r ddeiseb gyntaf a ddaeth i law.
  - Ni fydd deisebau sy'n cael eu hystyried yn flinderus, yn ymosodol, yn ailadroddus neu fel arall yn amhriodol yn cael eu derbyn.
  - Unrhyw ddeiseb sy'n gofyn i'r Cyngor wneud unrhyw beth anghyfreithlon.
  - Unrhyw ddeiseb yn ymwneud ag unrhyw gamau cyfreithiol a gymerwyd gan y Cyngor neu unigolyn.
  - Deiseb sy'n cynnwys gwybodaeth gyfrinachol er enghraifft am unigolyn penodol.
  - Yn y cyfnod yn union cyn etholiad neu refferendwm efallai y bydd angen i ni ymdrin â'ch deiseb yn wahanol – os felly, byddwn yn egluro'r rhesymau ac yn trafod yr amserlen ddiwygiedig a fydd yn berthnasol.

---

## ***Beth na allwch ei gynnwys mewn deiseb***

---

Y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin.  
01267 224028 / [GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk](mailto:GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk)

Mae'n rhaid peidio â chynnwys y canlynol mewn deisebau:

- Iaith sy'n sarhaus, yn ddirmygus neu'n bryfoclyd. Yn ogystal â chynnwys iaith fras amlwg, rhegfeydd a sarhad, mae hefyd yn cynnwys iaith y byddai person rhesymol yn ei hystyried yn sarhaus.
- Datganiadau a allai fod yn anghywir neu a allai fod yn enllibus
- Gwybodaeth y gwaherddir ei chyhoeddi gan orchymyn llys neu gorff neu berson â phŵer tebyg
- Deunydd a allai fod yn gyfrinachol, yn fasnachol sensitif, neu a allai achosi trallod neu golled bersonol
- Unrhyw gymeradwyaeth fasnachol, hyrwyddiad o unrhyw gynnyrch, gwasanaeth neu gyhoeddiad neu ddatganiadau sy'n gyfystyr â hysbysebion;
- Enwau swyddogion cyrff cyhoeddus, oni bai eu bod yn rhan o uwch-reolwyr y sefydliadau hynny;
- Enwau aelodau teulu cynrychiolwyr etholedig neu swyddogion cyrff cyhoeddus;
- Enwau unigolion, neu wybodaeth lle gellir eu hadnabod, mewn perthynas â chyhuddiadau troseddol;
- Materion nad yw deiseb yn sianel briodol ar eu cyfer (er enghraifft, gohebiaeth am fater personol).

---

### ***Beth fydd yn digwydd ar ôl i ni dderbyn y ddeiseb:-***

---

- Anfonir cydnabyddiaeth at drefnydd y ddeiseb cyn pen pum diwrnod gwaith ar ôl i'r ddeiseb ddod i law. Bydd y trefnydd yn rhoi gwybod iddynt beth rydym yn bwriadu ei wneud â'r ddeiseb a phryd y gallant ddisgwyl clywed gennym eto.
- Bydd y ddeiseb yn cael ei chyhoeddi ar gofrestr deisebau'r Cyngor ar ein gwefan.
- Os bydd y Cyngor o'r farn y gall fodloni'r hyn y mae'r ddeiseb yn gofyn amdano, efallai y bydd y gydnabyddiaeth yn cadarnhau pa gamau a gymerwyd ar y cais a bydd y ddeiseb yn cael ei chau. Os bydd unrhyw gamau gweithredu arall yn cael eu cynnig neu dan fwriad, bydd y gydnabyddiaeth yn esbonio hyn.
- Os oes gan y ddeiseb ddigon o lofnodion i sbarduno trafodaeth gan y Cyngor, bydd y gydnabyddiaeth wedyn yn cadarnhau hyn ac yn dweud wrthyhch pryd a ble y cynhelir y cyfarfod.
- Os oes gan y ddeiseb lai na 50 o etholwyr cofrestredig o'r Sir o ran copi papur neu lai na 300 o etholwyr cofrestredig o'r Sir o ran e-ddeiseb, caiff y ddeiseb ei chyfeirio at yr adran gwasanaeth er ymateb.

Y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin.

01267 224028 / [GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk](mailto:GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk)

- Os nad yw deiseb yn dilyn y canllawiau a nodir, gall y Cyngor benderfynu peidio â gwneud dim byd pellach â'r ddeiseb. Os felly, byddwch yn derbyn esboniad ysgrifenedig o'r rhesymau.
- Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i wirio llofnodwyr yn ôl yr angen. Dylai deisebwyr sicrhau bod cyfeiriad a chôd post dilys yn cael eu cynnwys ar gyfer pob deisebydd sef cyfeiriad cartref (os yw'n byw yn Sir Gaerfyrddin) neu gyfeiriad gwaith (os yw'n gweithio neu'n rhedeg busnes yn Sir Gaerfyrddin). Bydd y manylion hyn yn cael eu hystyried wrth nodi a oes digon o lofnodwyr i gyfeirio'r ddeiseb ar gyfer trafodaeth yn y Cyngor.

---

### ***Trafod deisebau yng nghyfarfodydd y Cyngor***

---

Yn achos deiseb yn ymwneud ag un o swyddogaethau'r Cyngor gwahoddir y deisebwr i gyflwyno'r ddeiseb yn ffurfiol i'r Cyngor heblaw yn achos deiseb yn ymwneud ag un o swyddogaethau'r Cyngor a ddirprwywyd i Bwyllgor o'r Cyngor (e.e. mater cynllunio neu drwyddedu) lle caiff y deisebwr ddewis cyflwyno'i ddeiseb yn ffurfiol i'r Pwyllgor perthnasol hwnnw. Os dewisa'r deisebwr gyflwyno'r ddeiseb i'r Pwyllgor perthnasol, mae'n rhaid i'r Cyngor serch hynny drafod y mater yn ei gyfarfod a chyfeirio'r ddeiseb a'i drafodaethau ynghylch y ddeiseb at gyfarfod nesaf y Pwyllgor perthnasol hwnnw er mwyn cyfrannu i'w benderfyniad ynghylch y mater.

Yn achos deiseb yn ymwneud â swyddogaeth weithredol caiff y deisebwr ddewis cyflwyno'i ddeiseb yn ffurfiol i'r Cyngor Sir, i'r Cabinet, neu os yw'n berthnasol, i'r Aelod Cabinet perthnasol heblaw bod yn rhaid i'r penderfyniad Cabinet yn y pen draw fod yn fater i'r Cabinet neu i'r Aelod Cabinet. Os dewisa'r deisebwr gyflwyno'r ddeiseb yn ffurfiol i'r Cabinet neu i'r Aelod Cabinet, rhaid i'r Cyngor serch hynny drafod y mater yn ei gyfarfod a chyfeirio'r ddeiseb a'i drafodaethau ynghylch y ddeiseb at gyfarfod nesaf y Cabinet neu'r Aelod Cabinet er mwyn cyfrannu i'w benderfyniad ynghylch y mater.

Os cyfeirir deiseb at yr Aelod Cabinet, bydd ef/hi yn cwrdd â'r deisebwyr, yn derbyn y ddeiseb ac yn ymateb yn gryno. Bydd ef/hi wedyn yn cyfeirio'r ddeiseb at y swyddogion perthnasol i baratoi adroddiad ar y mater i'w ystyried yn un o'i g/chyfarfodydd penderfyniadau.

Bydd deisebau sy'n cael eu cyflwyno gerbron y Cyngor yn cael eu trafod mewn cyfarfod y gall pob Cynghorydd ei fynychu.

Caiff deisebau eu gosod ar yr agenda yn y drefn y daethant i law.

Bydd trefnydd y ddeiseb yn cael pum munud i gyflwyno'r ddeiseb yn y cyfarfod. Bydd y deisebydd yn cael ei gyfyngu i ddarllen neu grynhoi deiseb, gan nodi nifer a disgrifiad y llofnodwyr, a gwneud unrhyw sylwadau ategol pellach i'r ddeiseb fel y gwêl y sawl sy'n ei chyflwyno yn briodol.

Y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin.

01267 224028 / [GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk](mailto:GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk)

Mewn cyfarfod o'r Cyngor neu bwyllgor perthnasol, mae hawl gan Arweinydd y Cyngor neu'r Aelod Cabinet perthnasol neu Gadeirydd y Pwyllgor i ymateb yn fyr i'r cyflwyniad. Ni fydd unrhyw drafod ynghylch y ddeiseb yng nghyfarfod llawn y Cyngor.

---

## ***Pa mor hir rydym yn cadw gwybodaeth bersonol mewn deiseb***

---

Bydd yr Awdurdod yn cadw enwau a gwybodaeth gyswllt llofnodwyr ar ddeiseb am 3 mis yn unol â'n cyfnod cadw. Caiff y wybodaeth ei dileu ar ôl 3 mis.

---

## ***Beth allaf ei wneud os rwy'n teimlo nad yw fy neiseb wedi cael ei thrin yn briodol?***

---

Os ydych yn teimlo nad ydym wedi delio â'ch deiseb yn briodol, cysylltwch â'r Swyddog Monitro a fydd yn adolygu eich cwyn ac yn rhoi gwybod i chi pa gamau y bwriedir eu cymryd. Rhowch esboniad byr o'r rhesymau wrth gyfathrebu â ni.

Swyddog Monitro  
Cyngor Sir Caerfyrddin  
Neuadd y Sir  
Caerfyrddin  
SA31 1JP.

[LRJones@sirgar.gov.uk](mailto:LRJones@sirgar.gov.uk)

Ffôn 01267 224010

Y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin.  
01267 224028 / [GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk](mailto:GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk)

## Templed ar gyfer Deisebau

### Canllawiau:

Dewch o hyd i dempled awgrymedig ar gyfer eich deiseb, a gwnewch yn siŵr bod testun y ddeiseb ar frig y dudalen ar bob tudalen.

Mae'n rhaid i drefnydd y ddeiseb fyw, gweithio neu fod yn berchen ar fusnes yn Sir Gaerfyrddin.

Os ydych yn dymuno llofnodi'r ddeiseb hon, nodwch eich cyfeiriad yn Sir Gaerfyrddin os ydych yn byw, yn gweithio neu'n berchen ar fusnes yn y Sir gan y bydd hyn yn cyfrif tuag at unrhyw drothwy ar gyfer trafod yng nghyfarfodydd y Cyngor (lle mae pob Cynghorydd yn bresennol).

Ni fydd llofnodwyr o'r tu allan i Sir Gaerfyrddin yn cael eu hystyried ar gyfer cyflwyno deiseb i gyfarfod o'r Cyngor ar gyfer trafodaeth ffurfiol.

**Manylion Cyswllt y Deisebydd** (y person sydd wedi trefnu'r ddeiseb ac a fydd yn ei chyflwyno yng nghyfarfod y Cyngor)

<b>Enw Llawn:</b>	
<b>Cyfeiriad ar gyfer Gohebiaeth:</b>	<b>Llinell Gyntaf:</b> _____ <b>Ail Linell:</b> _____ <b>Trydedd Linell:</b> _____ <b>Côd Post:</b> _____
<b>Rhif Ffôn:</b>	
<b>Cyfeiriad e-bost:</b>	
<b>Llofnod</b>	

Y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin.

01267 224028 / [GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk](mailto:GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk)



## DEISEB I GYNGOR SIR CAERFYRDDIN

**Pwnc y ddeiseb:**

**Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn deisebu Cyngor Sir Caerfyrddin i:**

**Crynodeb o'r camau a gymerwyd eisoes (os yw'n berthnasol)**

	<b>Enw Llawn</b>	<b>Cyfeiriad Cartref neu Waith/Busnes (gan gynnwys côd post)</b>	<b>Llofnod</b>	<b>Cyfeiriad e-bost (os yw'n bosibl)</b>
1				
2				
3				

Y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin.

01267 224028 / [GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk](mailto:GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk)

	<b>Enw Llawn</b>	<b>Cyfeiriad Cartref neu Waith/Busnes (gan gynnwys côd post)</b>	<b>Llofnod</b>	<b>Cyfeiriad e-bost (os yw'n bosibl)</b>
4				
5				
6				
7				
8				
9				
10				
11				
12				
13				
14				

Y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin.  
01267 224028 / [GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk](mailto:GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk)

	<b>Enw Llawn</b>	<b>Cyfeiriad Cartref neu Waith/Busnes (gan gynnwys côd post)</b>	<b>Llofnod</b>	<b>Cyfeiriad e-bost (os yw'n bosibl)</b>
15				
16				
17				
18				
19				
20				
21				
22				
23				
24				
25				

Y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin.  
01267 224028 / [GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk](mailto:GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk)

	Enw Llawn	Cyfeiriad Cartref neu Waith/Busnes (gan gynnwys côd post)	Llofnod	Cyfeiriad e-bost (os yw'n bosibl)
26				
27				
28				
29				
30				
31				
32				
*				

\* Parhau yn ôl yr angen.

Y Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir, Caerfyrddin.  
01267 224028 / [GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk](mailto:GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk)